# Disgrifiad Swydd

**Swydd:** Hyfforddwr Aml-gamp
**Yn atebol i:** Cydlynydd Addysg Uwchradd
**Oriau contract:** 37.5awr
**Math o Gontract:** Cyfnod penodol hyd at 31 Awst 2025
**Band Cyflog:** £24,570 - £26, 119
**Lleoliad:** Tŷ Chwaraeon 3, Clos Parc Morgannwg, Caerdydd CF11 8AW.
**Bydd gofyn i chi weithio mewn lleoliadau eraill hefyd fel rhan o'r swydd hon*

## Pwrpas y Swydd

Rheoli a chynnal gweithgareddau chwaraeon ac ymarfer corff cynhwysol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 18 oed yn ne Cymru, fel rhan o waith Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd. Dylai'r gweithgareddau hyn gael eu cynnal yn unol â chynllun cyflawni'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, cefnogi digwyddiadau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ym maes Addysg Gorfforol, mentora athrawon mewn ysgolion, cynnal sesiynau chwaraeon ac ymarfer corff y tu allan i'r cwricwlwm (gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau), darparu ymyriadau wedi'u targedu a rhaglen o weithgareddau haf.

## Y Prif Gyfrifoldebau:

### Effaith

- Cofnodi a monitro canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen gan ddefnyddio holiaduron ac astudiaethau achos a gynlluniwyd ymlaen llaw a sicrhau bod data'n gywir a chyfrinachol.
- Asesu llwyddiant ac effaith sesiynau yn gyson gan ddefnyddio adborth cyfranogwyr a data perfformiad er mwyn gallu defnyddio gwybodaeth i ddatblygu rhaglenni yn y dyfodol.
- Hyrwyddo a chynnal egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhob rhaglen a gweithgaredd.

**Y gweithlu**

- Datblygu a darparu gweithgareddau sy'n rhan o'r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer plant a phobl ifanc gan sicrhau bod yr holl sesiynau wedi eu teilwra ar gyfer anghenion unigryw'r cyfranogwyr.
- Rhoi arweinyddiaeth, cefnogaeth a hyfforddiant i staff sy'n ymwneud â chynnal y gweithgareddau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael profiad o ansawdd uchel.
- Cynorthwyo gyda'r gwaith trefnu a darparu digwyddiadau DPP ym maes Addysg Gorfforol ar gyfer staff er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

**Cyllid**

- Trefnu a chynnal a chadw offer angenrheidiol, gan sicrhau bod pob eitem mewn cyflwr da ac yn barod ar gyfer sesiynau.
- Cyd-weithio gyda'r tîm marchnata er mwyn hyrwyddo rhaglenni fel Premier League Primary Stars, Premier League Inspires, Premier League Kicks, a gweithgareddau eraill er mwyn sicrhau eu bod mor weladwy â phosibl ac yn denu'r ymgysylltiad mwyaf posibl.

**Cyfathrebu**

- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer cyfranogwyr y rhaglenni a'u teuluoedd, ymateb i ymholiadau a phryderon mewn modd proffesiynol a chydymdeimladol.
- Darparu diweddariadau clir a rheolaidd i dîm rheoli'r sefydliad a rhanddeiliaid allweddol eraill gan gydlynu â thargedau'r sefydliad.
- Cynrychioli'r sefydliad mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol gan hyrwyddo gwerthoedd a nodau'r sefydliad.

**Diogelu a Chydymffurfio**

- Sicrhau bod holl weithgareddau'r rhaglen yn cael eu cynnal yn ddiogel mewn amgylchedd cefnogol, gan lynu at y safonau diogelu uchaf.
- Cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf yn unol â gofynion GDPR, gan sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael ei drin yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

- Rhoi safonau Iechyd a Diogelwch ar waith ym mhob rhan o'r rhaglen, gan sicrhau lles yr holl gyfranogwyr a staff.

**Cysylltiadau Allweddol**

Mewnol: Holl Staff ac Ymddiriedolwyr y Sefydliad
Allanol: Staff Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, aelodau o'r gymuned, ysgolion, yr heddlu, cynrychiolwyr Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol, cynghorau lleol, mudiadau cynhwysiant, darparwyr cyfleusterau, a rhanddeiliaid eraill.

## Manyleb y Person

| Sgiliau/Nodweddion Personol | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau a Hyfforddiant** | | |
| Cymhwyster Hyfforddi Chwaraeon (Lefel 2 o leiaf) | ✓ | |
| Cymhwyster mewn gweithio gyda phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | | ✓ |
| Cymhwyster Cymorth Cyntaf perthnasol | | ✓ |
| Tystysgrif berthnasol UKCC Lefel 2 mewn diogelu ac amddiffyn plant | | ✓ |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | | |
| Y gallu i gydlynu a threfnu yn effeithiol | ✓ | |
| Sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. | ✓ | |
| Profiad o gynnal gweithgareddau sydd yn rhoi pwyslais ar y synhwyrau, ac o addasu sesiynau chwaraeon ar gyfer plant sydd â chyflyrau datblygiadol | | ✓ |
| Gwybodaeth am arferion chwaraeon cynhwysol | ✓ | |
| Y gallu i fentora staff, gwirfoddolwyr a buddiolwyr | ✓ | |
| Siaradwr Cymraeg | | ✓ |
| **Profiad** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Profiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc | ✓ | |
| Profiad o ffurfio a datblygu partneriaethau | ✓ | |
| Profiad o gynnal rhaglenni chwaraeon cynhwysol | ✓ | |
| Profiad o reoli cyllidebau | | ✓ |
| **Amgylchiadau Personol** | | |
| Gallu a pharodrwydd i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau yn rheolaidd. | ✓ | |
| Trwydded yrru lawn a cherbyd at eich defnydd | ✓ | |

**Sut mae gwneud cais**

Os oes gennych chi ddiddordeb a bod gennych chi'r nodweddion priodol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon, llenwch yr holl wybodaeth a restrir isod yn y drefn gywir gan ddefnyddio'r **ddolen ynghlwm**.

Cyflwynwch lythyr eglurhaol sy'n amlinellu eich profiad a'r pethau rydych chi wedi'u cyflawni mewn perthynas a'r disgrifiad swydd a'r manyleb person a llenwch y ffurflenni canlynol:
» Ffurflen Cyfle Cyfartal
» Ffurflen Hunan-Ddatganiad
» Ffurflen Gais am Swydd
**Sylwch, ni fyddwn yn gallu asesu eich cais oni bai bod yr holl eitemau uchod wedi'u cwblhau.*

Ein gweithlu yw ein hased pwysicaf, felly rydym wedi ymrwymo i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.Felly, rydym yn agored i geisiadau gan bobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd, sy'n gallu dod a sgiliau a phrofiadau unigryw i gysylltu a phobl a gyda'n cymunedau.

Mae Sefydliad Cymunedol Clwb Pel-droed Dinas Caerdydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Felly, mae swyddi sy'n cynnwys gweithio gyda grwpiau o'r fath yn amodol ar brotocolau recriwtio mwy diogel, gan gynnwys archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r swydd hon hefyd yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd, anfonwch e-bost at **HR@cardiffcityfc.org.uk**

Dyddiad Cau: Dydd Mercher, 29ed Ionawr 2025
Cyfweliad: Dydd Iau, 6ed Chwefror 2025